


Strategaeth Hybu'r Gymraeg Castell-nedd Port Talbot



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Cyd-destun Strategol	2
Cyd-destun Lleol.....	4
Addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot	12
Datblygu'r Strategaeth	14
Blaenoriaethau Stratego	15
Cynllun Gweithredu Strategaeth Hybu'r Gymraeg	19
Rhennir y Cynllun Gweithredu yn ddwy ran	20
ADRAN 1 – Ymyriadau mewnol ac ymyriadau 3 ^{ydd} parti dan reolaeth CBS Castell-nedd Port Talbot	22
ADRAN 2 – Ymyriadau gan fudiadau partner (nad ydynt dan reolaeth CBS Castell-nedd Port Talbot)	45
Monitro	53

Cyflwyniad

Roedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn moderneiddio'r fframwaith cyfreithiol a oedd yn bodoli mewn perthynas â'r defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Roedd Mesur 2011 hefyd yn cynnwys:

- rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, sy'n golygu na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- sefydlu rôl Comisiynydd y Gymraeg sydd â chyfrifoldeb dros hybu'r Gymraeg a gwella'r cyfleoedd sydd gan bobl i'w defnyddio;
- creu trefn o gyflwyno dyletswyddau ar ffurf safonau iaith sy'n egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg a chreu hawliau i siaradwyr Cymraeg;
- gwneud darpariaeth ynglŷn â hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a chynyddu'r defnydd ohoni mewn bywyd bob dydd;
- gwneud darpariaeth ynglŷn ag ymchwilio i ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.

Rho'r Mesur awdurdod i Gomisiynydd y Gymraeg osod dyletswyddau ar amrywiaeth eang o sefydliadau i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg, i brif ffrydio'r iaith i ddatblygiad polisïau ac i ddatblygu strategaethau ynglŷn â chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith.

Cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, ynghyd â phob awdurdod lleol arall yng Nghymru, dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Roedd yr Hysbysiad Cydymffurfio'n cynnwys 171 o Safonau'r Gymraeg yr oedd yn rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â nhw mewn perthynas â darparu gwasanaethau yn y Gymraeg.

Cyflwynwyd amrediad o safonau mewn perthynas â darparu gwasanaethau, llunio polisïau, elfennau gweithredol, hyrwyddo a chadw cofnodion, i'r Cyngor. Dan safon hybu 145 mae gofyn i'r Cyngor ddatblygu Strategaeth Hybu'r Gymraeg i gynorthwyo gyda'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg, gyda'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol.

Er nad rhodd y Cyngor yn unig yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, gall ddefnyddio'i gyfrifoldebau i helpu dylanwadu ar hyn, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, ar draws y fwrdeistref sirol.

Datblygwyd y Strategaeth gan ystyried meysydd cyfrifoldeb y Cyngor ei hun, ei adnoddau cyfyngedig, cymorth a gweithgarwch y Fforwm Iaith Strategol a phartneriaid eraill. Nod y Strategaeth yw bod mor uchelgeisiol â phosib o ystyried cyfyngiadau'r Cyngor o ran dylanwad ac adnoddau a phroffil ieithyddol y fwrdeistref sirol.

Datblygwyd y cynllun gweithredu yn unol â chyfyngiadau cyllidebol presennol. Mae nifer o gamau gweithredu wedi'u cynnwys sydd eisoes ar waith; trwy Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, grantiau/cyllid allanol a gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud gan sefydliadau allanol sy'n cyfrannu at nodau'r strategaeth.

Cyd-destun Strategol

Mesur y Gymraeg 2011

Roedd y Mesur wedi:

- rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, sy'n golygu na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- sefydlu rôl Comisiynydd y Gymraeg sydd â chyfrifoldeb dros hybu'r Gymraeg a gwella'r cyfleoedd sydd gan bobl i'w defnyddio;
- creu trefn o gyflwyno dyletswyddau ar ffurf safonau iaith sy'n egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg a chreu hawliau i siaradwyr Cymraeg;
- gwneud darpariaeth ynglŷn â hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a chynyddu'r defnydd ohoni mewn bywyd bob dydd;
- gwneud darpariaeth ynglŷn ag ymchwilio i ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg.

Roedd y Rheoliadau'n pennu safonau'r Gymraeg mewn perthynas â Gweinidogion Cymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac yn awdurdodi Comisiynydd y Gymraeg i gyhoeddi hysbysiad cydymffurfio i'r cyrff hyn.

Mae'r hysbysiad cydymffurfio fel y mae'n berthnasol i'r Cyngor yn cynnwys darparu gwasanaethau, llunio polisïau, elfennau gweithredol, hyrwyddo a

chadw cofnodion. O ganlyniad i ofynion y safonau hybu, mae'r Cyngor wedi datblygu ei Strategaeth Hybu'r Gymraeg.

Mae safonau hybu'r Gymraeg yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol ledled Cymru i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn fwy eang ac i gefnogi ac annog y defnydd ohoni o fewn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Yn Safon 145 (Hybu) nodir bod yn rhaid i bob awdurdod lleol lunio a chyhoeddi ar eu gwefan, strategaeth 5-mlynedd sy'n gosod sut y maent yn cynnig hybu'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd ohoni'n fwy eang yn eu hardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymhlith materion eraill):

- targed (o ran canran y siaradwyr yn yr ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd dan sylw;
- datganiad yn nodi sut y maent yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a chynnal adolygiad o'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ar eu gwefan o fewn 5 mlynedd i gyhoeddi'r strategaeth (neu i gyhoeddi strategaeth ddiwygiedig).

Strategaeth Cymraeg 2050

Dyma strategaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r strategaeth yn disodli iaith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012-17, a'i datganiad polisi cysylltiedig, iaith fyw: iaith byw – Symud ymlaen. Mae Strategaeth Cymraeg 2050 yn gosod dull hirdymor Llywodraeth Cymru o fynd ati i wireddu'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

Mae addysg yn ganolog i weledigaeth Llywodraeth Cymru gyda phobl ifanc yn dod allan o'r system addysg yn barod ac yn falch o ddefnyddio'r Gymraeg ymhob cyd-destun. Nod y Strategaeth yw cyrraedd sefyllfa lle mae'r Gymraeg yn elfen greiddiol o bob agwedd ar fywyd bob dydd.

Er mai cynllun pum mlynedd yw hwn, dylai osod y sylfeini ar gyfer strategaeth iaith hirdymor fydd yn cyfrannu at y nod o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mwy na Geiriau

Lluniwyd Fframwaith Strategol 'Mwy na Geiriau' yn 2012 gyda'r nod o gryfhau gwasanaethau cyfrwng Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Yn ganolog i'r strategaeth mae'r her o ddatblygu'r 'Cynnig Gweithredol', sef y bydd aelodau o staff yn cynnig gwasanaethau Cymraeg i gleifion, yn hytrach nag aros i gleifion ofyn amdanynt.

Diweddarwyd y strategaeth yn 2016 gyda fframwaith strategaeth dilynol 'Mwy na geiriau.... fframwaith strategol dilynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2016-2019', a darparwyd adnoddau i alluogi staff i'w weithredu.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ffordd o helpu'r cyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhestru yn y Ddeddf i feddwl yn hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau a mynd ati â chysondeb i sicrhau llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Un o'r saith Nod Llesiant a geir yn y Ddeddf yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu - cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.'

Cyd-destun Lleol

Gwaith yr ydym wedi ei wneud yn barod

Er bod Safonau Hybu'r Gymraeg yn elfen reoleiddiol newydd, mae gwaith wedi bod ar waith o fewn y fwrdeistref sirol ers peth amser. Mae'r Cyngor wedi cefnogi ac wedi hybu'r Gymraeg trwy'r ymrwymadau a wnaeth yn ei Gynlluniau Iaith Gymraeg ers 1996; croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, darparu dogfennau a chyhoeddiadau dwyieithog, dyrannu swyddi, sicrhau bod y wefan yn ddwyieithog, cynnwys gofynion iaith yn y broses ymgeisio ar gyfer grantiau'r trydydd sector, darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a diwylliant i staff a myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer gradd mewn gwaith cymdeithasol; sicrhau bod cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael mewn cyfarfodydd a drefnwyd gan y Cyngor ers mis Mehefin 2013 a chefnogi a darparu amrywiol ddigwyddiadau a gweithgareddau iaith Gymraeg/diwylliant Cymru trwy'r Gwasanaeth Ieuenctid a mudiadau partner

Mae deddfwriaeth ddiweddar, gan gynnwys Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, wedi cynyddu amlygrwydd y Gymraeg a threftadaeth a diwylliant Cymreig gan gyflwyno cyfle amserol i ailasesu ymagwedd y cyngor at barhau â'r gwaith sydd eisoes wedi dechrau.

Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar waith blaenorol y cyngor wrth gefnogi a hyrwyddo'r iaith ac yn edrych i'r dyfodol lle caiff y Gymraeg ei hyrwyddo ar draws pob sector lle mae nifer y bobl sy'n dewis addysg Gymraeg yn cynyddu a lle mae'r Gymraeg yn rhan gynhenid o fywyd pob dydd.

Mae'r Cyngor, Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot, Cymraeg Byd Busnes, Cymraeg i Blant, Mudiad Meithrin, yr Urdd ac ysgolion oll yn darparu gwasanaethau ac yn cydweithio i hybu'r Gymraeg yn y fwrdeistref sirol. O ganlyniad, mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot ynghyd â Menter Abertawe wedi creu Fforwm Iaith Strategol ar y cyd, sy'n cynnwys mudiadau â chyfrifoldeb dros gynllunio ieithyddol yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe, ac sy'n fechanwaith i ddatblygu elfennau'r o'r strategaeth.

Proffil y Gymraeg

Y Cyngor

Dros y blynyddoedd diwethaf, ac o ganlyniad i'r cynni ariannol yr oedd y Cyngor yn ei wynebu, mae nifer fawr o staff wedi gadael y Cyngor trwy'r prosesau colli swydd yn wirfoddol/ymddeol yn gynnar a moratoriwm ar recriwtio. O ganlyniad, mae nifer y staff wedi gostwng ac mae hyn, yn ei dro, wedi cael effaith ar nifer y siaradwyr Cymraeg

Cyfarwyddiaeth ac Is-adran	Cyfanswm cyflogedigion	Cyfanswm sy'n siarad Cymraeg	%
Prif Weithredwr (Uwch Dîm Rheoli)	6	2	33.33
Swyddfa'r Prif Weithredwr			
Strategaeth Gorfforaethol a Gwasanaethau Democrataidd	84	10	11.90
Adnoddau Dynol	82	12	14.63
Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes			
Cyfranogiad	388	35	9.02
Trawsnewid	360	48	13.33

Cyfarwyddiaeth ac Is-adran	Cyfanswm cyflogedigion	Cyfanswm sy'n siarad Cymraeg	%
Amgylchedd			
Peirianeg a Thrafnidiaeth	147	14	9.52
Cynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd	102	13	12.75
Eiddo ac Adfywio	185	20	10.81
Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru	168	12	7.14
Gwasanaethau Gofal Stryd	521	47	9.02
Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol			
Gwasanaethau	172	7	4.07
TGCh	95	4	4.21
Gwasanaethau Cyfreithiol	94	10	10.64
Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai			
Comisiynu, Cymorth a Gwasanaethau Uniongyrchol	562	62	11.03
Gwasanaethau Gwaith Cymdeithasol	631	65	10.30
Bae'r Gorllewin	29	2	6.90
Cyfanswm	3626	363	10.01

Castell-nedd Port Talbot

Mae'n bwysig deall y ddemograffeg bresennol gan y bydd ymyriadau'n wahanol gan ddibynnu ar gyfansoddiad ieithyddol pob ardal. Trwy edrych ar gyfrifiad 2011, gallwn ddeall ble'r ydyn ni o ran yr iaith, cyn edrych ar ymyriadau.

Yn ôl Cyfrifiad 2011, gallai tua 15.3% o boblogaeth y fwrdeistref sirol siarad Cymraeg, sydd gywerth â thua 20,698 o unigolion. Roedd mwyafrif helaeth y siaradwyr hyn yn rhan uchaf Cwm Tawe a Dyffryn Aman gyda rhai o'r cymunedau fel Gwaun Cae Gurwen, Cwmllynfell a Brynaman Isaf ymhlith y canran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Fodd bynnag, dyma'r ardaloedd a welodd y dirywiad mwyaf o ran canran a niferoedd siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011.

Fel y nodir yn y tablau isod, roedd rhai cymunedau fel Godre'r Graig ac Ystalyfera wedi gweld dirywiad o dros 10% o fewn degawd. Gellid dadlau mai'r ardal sy'n ymestyn o Drebanos i Gwmllynfell ac o'r Rhos i Waun Cae Gurwen yw'r pwysicaf yn y fwrdeistref sirol o ran pwysigrwydd ieithyddol, gan ei bod yn cynnwys y niferoedd a'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg. Dyma graidd ieithyddol y fwrdeistref sirol ac mae prosiect 'Partneriaith Aman Tawe' y Fenter Iaith yn rhoi sylw penodol i'r ardal hon, o ran creu ymyriadau i arafu'r dirywiad yn niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg. Byddai colli gwaddol ardal o'r fath yn cael effaith seicolegol aruthrol ar weddill y fwrdeistref sirol ac unrhyw dwf o bwys yn nifer y plant sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yr ardaloedd hynny a'r oedolion hynny sy'n dysgu'r iaith o'u gwirfodd.

Dyma un o'r rhesymau pam y penderfynodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ddechrau cynllun arbennig i hybu'r Gymraeg yn 2011 yn ardal Aman Tawe, gan benodi swyddogion llawn-amser i hybu'r Gymraeg yn yr ardaloedd pwysig hyn. Dengys y tabl isod y newid mewn canran o ran siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau hyn rhwng 2001 a 2011: -

Cymuned	% o siaradwyr Cymraeg (2001)	% o siaradwyr Cymraeg (2011)	Newid
Cwmllynfell	68.2	58.2	-9.4
Brynaman Isaf	68.1	60.8	-7.3
Gwaun Cae Gurwen	67.9	55.8	-12.1
Ystalyfera	54.6	46	-8.6
Trebannws	43.4	33.6	-8.8
Godre'r Graig	41.5	30.1	-11.4
Pontardawe	37.4	31	-6.4
Alltwen	35.9	29.5	-6.4
Rhos	28.6	24.7	-3.9
Crynant	46.53	25.1	-21.43

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 a 2011

Er bod canrannau yn adlewyrchiad da o ddwysedd siaradwyr Cymraeg, gallant fod yn gamarweiniol i raddau helaeth fel mesur o hyfywdra'r iaith. Ar y llaw arall, mae ffigurau yn rhoi darlun mwy manwl o newidiadau demograffig, a gyda nod Llywodraeth Cymru ymddengys y bydd symudiad tuag at greu niferoedd uwch yn hytrach na chynyddu canrannau.

Dengys y tabl ostyngiad sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg dros ddegawd o fewn cymunedau Cymraeg traddodiadol fel Cwmllynfell, Brynaman, Gwaun Cae Gurwen ac Ystalyfera. Byddai Crynant hefyd yn cael ei gweld fel ardal o ddirywiad sylweddol a dylai unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol ystyried ardaloedd fel Crynant.

Cymuned	Nifer y siaradwyr Cymraeg (2001)	Nifer y siaradwyr Cymraeg (2011)	Newid	% Newid cymharol
Cwmllynfell	741	669	-72	-9.72
Brynaman Isaf	861	776	-85	-9.87
Gwaun Cae Gurwen	1,860	1,5726	-288	-15.48
Ystalyfera	1,614	1,339	-275	-17.04
Trebannws	580	459	-121	-20.86
Godre'r Graig	580	473	-107	-18.45
Pontardawe	1,826	1,624	-202	-11.06
Alltwen	800	664	-136	-17.0
Rhos	692	588	-104	-15.03
Crynant	699	465	-234	-33.47

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 a 2011

Mae colli cynifer o siaradwyr mewn cyfnod mor gymharol fyr o amser yn gwanhau sylfaen ieithyddol yr ardaloedd hynny ac yn cyflymu dirywiad yr iaith gan fod y symudiad ieithyddol yn tanseilio'r hyder a'r parodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, yn ogystal â bod yn ffactor sy'n cyfrannu at lai o gyfleoedd i ymarfer neu ddefnyddio'r iaith.

Mae yna nifer o resymau dros erydiad iaith mewn ardaloedd â chanrannau uchel a niferoedd cymharol uchel o siaradwyr Cymraeg – nodwedd sy'n gyffredin ymhlith cymunedau tebyg yn Nyffryn Aman a Chwm Tawe. Mae'r canlynol ymhlith y prif ffactorau sy'n cyfrannu at ddirywiad mewn iaith: -

- Diffyg trosglwyddiad iaith yn y cartref – a nodir fel y ffactor allweddol ar hyn o bryd
- Allfudo/Mewnfudo
- Canfyddiad negyddol o werth cynhenid yr iaith
- Diffyg ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd
- Diffyg hyder ymhlith siaradwyr Cymraeg
- Saesneg yn lledu i mewn i ardaloedd Cymraeg traddodiadol
- Priodasau iaith gymysg
- Pŵer y dylanwad Eingl-Americanaidd ar ddiddordebau plant a phobl ifanc

- Mwy o farwolaethau na genedigaethau ymhlith teuluoedd sy'n siaradwyr Cymraeg

Gwelwyd dirywiad nodedig yng nghanran siaradwyr yr iaith yn y cymunedau Cymraeg traddodiadol a hefyd ar raddfa'r fwrdeistref sirol. Serch hynny, gan mai cyfrwng cymdeithasol a diwylliannol ydyw, dylid mesur ei chryfder yn ôl defnydd, statws ac amlygrwydd gweledol yn lleol. Yn yr ardaloedd hynny lle mae dwysedd y Gymraeg yn parhau i fod yn gryf, mae'r Gymraeg yn dal ei thir yn gymharol lwyddiannus fe iaith feunyddiol y gymuned, er bod ffactorau pwerus yn cyfrannu at ei ffawd.

Roedd llai na 10% o bobl yn siarad Cymraeg mewn cymunedau megis Glyncorrwg, Aberafan, Taibach, Baglan, Llansawel, Cimla, Cymer a Chastell-nedd. Mae'r rhain ymhlith canrannau isaf y siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol. Dengys wardiau eraill Castell-nedd Port Talbot ganrannau o rhwng 10% ac 17%.

Ar nodyn mwy gobeithiol, mae nifer y plant sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd neu sy'n rhugl ond nid ydynt yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd wedi codi dros y blynyddoedd diwethaf, fel y nodwyd gan Benaethiaid Ysgolion Cynradd. Yn ôl y ffigurau diweddaraf gan Lywodraeth Cymru mae tua 1,600 (7.7%) o blant ysgolion cynradd yn y fwrdeistref sirol yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd ond mae 15.2% o'r holl blant yn cael eu gweld fel plant sy'n rhugl yn y Gymraeg. Yn sicr, mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu'r ymdrechion clodwiw a welwyd gan ysgolion cyfrwng Cymraeg. Serch hynny, ymddengys mai dim ond nifer isel o blant o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg fel Cwmllynfell, Trebannws a Gwaun Cae Gurwen sy'n symud ymlaen i Ysgol Gymraeg Ystalyfera i gael eu haddysg uwchradd.

Mae llawer o blant o'r ysgolion cynradd hyn sy'n siarad Cymraeg yn mynd ymlaen i Ysgol Uwchradd Cwmtawe i gael eu haddysg trwy gyfrwng y Saesneg. Yn sicr, mae diffyg parhad mewn addysg cyfrwng Cymraeg o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn fater o bryder o ran dyfodol yr iaith a'r hyder a ddaw o ddefnyddio'r Gymraeg mewn rhwydweithiau gwahanol a meysydd trafod gwahanol.

Er gwaethaf y tueddiadau hyn, teg fyddai nodi bod nifer y disgyblion yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, a bod dros 1,150 bellach yn cael eu haddysgu'n llwyr trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol. Mae'n bwysig nodi hefyd, gyda champws y de (Ysgol Bro Dur) mae yna dystiolaeth i awgrymu y bydd mwy yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg dros y pum mlynedd nesaf gan y bydd y campws yn apelio at y rheiny sy'n dymuno i'w plant gael addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg ond sy'n dewis peidio am eu bod yn gorfod teithio ymhellach.

Ward	Nifer y bobl dros 3 oed	Nifer y bobl 3+ sy'n gallu siarad Cymraeg	% y bobl 3+ sy'n gallu siarad Cymraeg
CBS Castell-nedd Port Talbot	135,281	20,698	15.3
Aberafan	5,232	411	7.9
Aberdulais	2,305	311	13.5
Alltwen	2,251	664	29.5
Baglan	6,627	557	8.4
Blaengwrach	1,935	287	14.8
Llansawel (Dwyrain)	2,827	242	8.6
Llansawel (Gorllewin)	2,896	275	9.5
Bryn a Chwmafon	6,330	1,024	16.2
Bryncoch (Gogledd)	2,139	297	13.9
Bryncoch (De)	5,706	699	12.3
Llangatwg	1,647	211	12.8
Cimla	3,835	350	9.1
Coedffranc (Canol)	3,870	425	11
Coedffranc (Gogledd)	2,322	265	11.4
Coedffranc (Gorllewin)	2,563	316	12.3
Crynant	1,851	465	25.1
Cwmllynfell	1,137	669	58.8
Cymer	2,714	186	6.9
Dyffryn	3,078	350	11.4
Glyncorrwg	1,054	65	6.2
Glyn-nedd	3,320	689	20.8
Godre'r Graig	1,571	473	30.1
Gwaun-cae-gurwen	2,823	1,576	55.8
Gwynfi	1,314	92	7
Brynaman Isaf	1,277	776	60.8
Margam	2,908	295	10.1
Castell-nedd (Dwyrain)	6,137	497	8.1
Castell-nedd (Gogledd)	3,838	379	9.9
Castell-nedd (De)	4,789	440	9.2

Ward	Nifer y bobl dros 3 oed	Nifer y bobl 3+ sy'n gallu siarad Cymraeg	% y bobl 3+ sy'n gallu siarad Cymraeg
Onllwyn	1,161	222	19.1
Pelenna	1,113	178	16
Pontardawe	5,232	1,624	31
Port Talbot	5,457	518	9.5
Resolfen	3,044	341	11.2
Rhos	2,382	588	24.7
Sandfields (Dwyrain)	6,692	504	7.5
Sandfields (Gorllewin)	6,495	524	8.1
Blaendulais	2,049	469	22.9
Taibach	4,634	354	7.6
Tonna	2,445	292	11.9
Trebannws	1,367	459	33.6
Ystalyfera	2,911	1,339	46

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Nod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yw amlinellu cynlluniau'r Cyngor ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn y fwrdeistref sirol, gan symud ysgolion cynradd ac uwchradd ar hyd y continwmm i ddarparu cynnydd mesuredig a sylweddol yn lefel addysg cyfrwng Cymraeg.

Teimlir ei fod yn hanfodol i Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a'r strategaeth hybu fod yn ddigon uchelgeisiol i helpu gwireddu nod Strategaeth Cymraeg 2050.

Addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot

Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar

Mudiad Meithrin yw prif ddarparwr addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot gyda:

- Cylchoedd Ti a Fi - Sgiwen, Port Talbot, Cwm Afan, Glyn-nedd a Blaendulais
- Cylchoedd Meithrin - Castell-nedd (mewn cydweithrediad â Dechrau'n Deg) a Threbannws Llansawel (dechrau'n deg) i'w sefydlu'n fuan
- Cylch Chwarae - Pontardawe

Yn ychwanegol, mae Canolfan Gofal Plant Tiddlywinks yn Ystalyfera yn cael effaith bositif ar y Gymraeg yn lleol. Mae ei gweithgareddau a'i digwyddiadau hollol ddwyieithog yn adlewyrchu cymeriad yr ardal ac yn darparu sylfaen gref ar gyfer Mudiad Meithrin.

O ran darpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg mae yna 28 lle cofrestredig a 24 o blant yn mynychu, ac mae'r darparwyr yn dweud eu bod yn gweithredu hyd eithaf eu capasiti. Mae yna 97 lleoliad gofal dydd sesiynol cofrestredig i rieni sy'n chwilio am ofal plant dwyieithog ac 159 o blant yn mynychu.

Darpariaeth Gynradd

Ar hyn o bryd yng Nghastell-nedd Port Talbot mae yna 10 ysgol cyfrwng Cymraeg, 9 ysgol cyfrwng Cymraeg allan o 55 ysgol gynradd ac un ysgol ganol cyfrwng Cymraeg, Ysgol Gymraeg Ystalyfera, sy'n darparu addysg i blant a phobl ifanc 3-18 oed.

Ar hyn o bryd, mae'r lleoedd gwag mewn dwy ysgol cyfrwng Cymraeg, Ysgol Gymraeg Castell-nedd ac Ysgol Gymraeg Rhosafan, yn llai na 10%, serch hynny gyda Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg effeithiol ac uchelgeisiol a strategaeth farchnata effeithiol dylai mwy o ysgolion gyrraedd eu capasiti. Mae'n hanfodol fod cynlluniau ar waith i sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei hybu a bod yr adnoddau'n cael eu rhoi i fodloni'r diddordeb ychwanegol mewn addysg cyfrwng Cymraeg fel bod unrhyw un sy'n dymuno cael addysg cyfrwng Cymraeg yn gallu gwneud hynny, heb yr anghyfleustra o orfod teithio ymhellach.

<u>Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg</u>	<u>Nifer y disgyblion (2017)</u>
YGG Blaendulais	104
YGG Pontardawe	352
YGG Castell-nedd	387
Ysgol Gymraeg Ystalyfera (cynradd) –	
YGG Y Wern gynt	148
YGG Cwm Nedd	156
YGG Gwaun Cae Gurwen	189
YGG Rhosafan	360
YGG Tyle'r Ynn	236
YGG Cwmllynfell	86
YGG Trebannws	104

Darpariaeth Uwchradd

Mae gan Gastell-nedd Port Talbot un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg sydd wedi'i rhannu rhwng Ysgol Gymraeg Ystalyfera (campws y gogledd) a champws y de newydd yn Ysgol Bro Dur.

Yn 2017, derbyniodd 1099 o ddisgyblion addysg uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera gyda'r ystadegau'n dangos bod y niferoedd wedi bod yn weddol gyson dros y pum mlynedd diwethaf. Gyda'r campws newydd yn Ysgol Bro Dur rhagamcannir y bydd mwy o blant yn parhau gyda'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn ei dro dylai hyn ysgogi diddordeb mewn addysg gynradd.

Datblygu'r Strategaeth

Ym mis Ionawr 2018 sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen trawsbleidiol er mwyn datblygu Strategaeth Hybu'r Gymraeg. Yn ogystal ag edrych ar strategaethau cenedlaethol a lleol, bu'r Grŵp yn ystyried yn ofalus pam fod angen strategaeth, a daeth i'r casgliad canlynol:

- Am ei fod yn iawn i gael un
- Am ein bod ni eisiau un
- I gefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru
- I annog diwylliant Cymraeg
- I gydymffurfio â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru
- I chwarae'n rhan wrth gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

Cytunodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen mai dyma ddylai yrru dull y Cyngor o fynd ati i gyflawni'r cynnydd tymor byr yn unol â tharged hirdymor uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

O ganlyniad, nod y Strategaeth yw:

- Cyflwyno camau yn y tymor byr i arafu'r gostyngiad yng nghanran nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol
- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhob agwedd ar fywyd

- Codi ymwybyddiaeth o'r iaith fel rhan o sectorau treftadaeth, diwylliant, twristiaeth a busnes Castell-nedd Port Talbot
- Gyrru a chefnogi addysg cyfrwng Cymraeg a chreu ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd, yn enwedig ysgolion cynradd, trwy Gynllun Strategol Addysg Gymraeg effeithiol

Er mwyn cynnal a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg dros y pum mlynedd nesaf, cydnabuwyd bod angen i'r Cyngor a'i bartneriaid flaenoriaethau rhai meysydd polisi allweddol ar gyfer gweithredu, sy'n cynnwys:

- Ehangu addysg cyfrwng Cymraeg o gyn-ysgol i ôl-16
- Gwella trosglwyddiad iaith yn y cartref
- Cynyddu nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg
- Ehangu cyfleoedd i blant, pobl ifanc a theuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned ac mewn gweithgareddau hamdden
- Ehangu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle

Blaenoriaethau Stratego

Mae'r Cyngor wedi bod yn ofalus i sicrhau bod y Strategaeth wedi ystyried y gwaith sydd eisoes wedi cael ei wneud o fewn y fwrdeistref sirol, camau a gynlluniwyd yn barod (ac mewn rhai achosion eisoes yn cael eu gweithredu) a'r sefyllfa ariannol bresennol a pharhaus ochr yn ochr â nodau a chamau gweithredu mwy uchelgeisiol, gwaith partneriaeth a chymorth ac arweiniad gan bartneriaid gan gynnwys Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot ac aelodau o'r Fforwm Iaith.

Mae'r cyngor a Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot wedi gweithio'n agos gyda'i gilydd i sicrhau bod y nodau a'r camau gweithredu'n realistig. Yn ogystal, mae aelodau'r Fforwm Iaith wedi dangos eu cefnogaeth i'r strategaeth drwy gytuno i gyflwyno amrywiaeth o gamau gweithredu, gyda chefnogaeth y cyngor lle bynnag y bo'n bosib, i helpu i gyflwyno nodau'r strategaeth.

O ganlyniad, mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar dair Blaenoriaeth Strategol:

- Plant a Phobl Ifanc
- Oedolion
- Y Gymuned

Trwy'r Blaenoriaethau Strategol hyn aliniwyd y Strategaeth at Amcanion Llesiant y Cyngor (fel y ceir yng Nghynllun Corfforaethol 2018-2022) yn ogystal ag adlewyrchu nodau Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050 fel y dangosir isod:

Strategaeth Hybu'r Gymraeg Ddrafft 2018-2023

Plant a Phobl Ifanc

Oedolion

Y Gymuned

Cynllun Corfforaethol 2018- 2022

Plant a Phobl Ifanc

Oedolion


Economi a'r Amgylchedd

Strategaeth Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050

Plant a Phobl Ifanc

Teuluoedd

Y Gymuned



Blaenoriaeth Strategol 1 - Dylanwadau:

- **Uniongyrchol** – newidiadau polisi i wasanaethau Plant a Phobl Ifanc gan gynnwys addysg a gwasanaethau craidd tu allan i'r ysgol
- **Anuniongyrchol** – defnyddio trydydd partiön ar gontract i ddarparu gwasanaethau ar ran yr awdurdod lleol fel rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth
- **Partneriaeth** – cydweithio â phartneriaid iaith i hybu gwaith a bwydo i mewn i'r cyd- strategaeth

Blaenoriaeth Strategol 2 – Dylanwadau:

- **Uniongyrchol** – cynlluniau mewnol a arweinir gan y cyngor i staff, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd
- **Anuniongyrchol** – defnyddio trydydd partiön ar gontract i ddarparu gwasanaethau ar ran yr awdurdod lleol fel rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth
- **Partneriaeth** – cydweithio â phartneriaid iaith i hybu gwaith a bwydo i mewn i gyd- strategaeth

Blaenoriaeth Strategol 3 – Dylanwadau:

- **Uniongyrchol** – cynlluniau a gwasanaethau mewnol a arweinir gan y cyngor i staff, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd yn ogystal â newidiadau i bolisi sy'n cynnwys hawliau i aelodau o'r gymuned.
- **Anuniongyrchol** – defnyddio trydydd partiön ar gontract i ddarparu gwasanaethau ar ran yr awdurdod lleol fel rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth
- **Partneriaeth** – cydweithio â phartneriaid iaith i hybu digwyddiadau cymunedol a bwydo i mewn i gyd- strategaeth

Bu'r Cyngor yn ymwybodol o'r cyfyngiadau arno o ran dylanwadu ar y gallu i gynnal neu gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal. O ganlyniad, mae'r Strategaeth yn nodi camau gweithredu dan dri maes cyfrifoldeb penodol:

Y Cyngor: cynlluniau, strategaethau a phrosesau mewnol y mae gan y Cyngor yn unig reolaeth drostynt.

Trydydd Parti: prosesau trydydd parti y gall y Cyngor effeithio arnynt gydag ymyriadau ond nad oes ganddo reolaeth drostynt.

Partneriaethau: gweithio mewn partneriaeth â mudiadau allanol i ddatblygu naws am le ag agwedd bositif tuag at y Gymraeg a chydweithio.

Mae'r camau gweithredu a nodwyd lle mae gan y Cyngor gyfrifoldeb llwyr neu gyfrifoldeb cyfyngedig drostynt, dan bwynt bwled 1a 2 uchod, wedi eu grwpio gyda'i gilydd yn y cynllun gweithredu canlynol ac mae camau gweithredu mudiadau partner a'r rheiny y mae eu cylch gwaith yn cynnwys cefnogaeth a darpariaeth Gymraeg tu allan i gyfrifoldeb y Cyngor, wedi eu cynnwys mewn tabl ar wahân.

O ganlyniad i weithredu'r camau gweithredu i wireddu nodau'r Strategaeth, rhagwelir erbyn 2023 y bydd y Cyngor wedi cyfrannu at gynnydd o 1%, o leiaf, yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol o fewn y cynllun ariannol cyfredol, a'r lefelau cyllid ac adnoddau presennol.



Cynllun Gweithredu Strategaeth Hybu'r Gymraeg

Nod y Cynllun Gweithredu 5-mllynedd canlynol yw rhoi sylw uniongyrchol i'r Gymraeg, a chael effaith arni, yng Nghastell-nedd Port Talbot, rhwng 2018- 2023. Bydd yn gosod y sylfeini ar gyfer datblygu Castell-nedd Port Talbot yn fwrdeistref sirol ddwyieithog, lle caiff yr iaith ei gweld fel ffactor pwysig a pherthnasol i weithrediad beunyddiol y Cyngor yn ogystal â bywydau'r rheiny sy'n byw yn y fwrdeistref sirol.

Lluniwyd y cynllun gweithredu gan grŵp gorchwyl a gorffen trawsbleidiol, gyda chymorth staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a chynrychiolydd o Fenter Iaith Castell-nedd Port Talbot (Menter Iaith CNPT).

Datblygwyd y cynllun gweithredu yn unol â chyfyngiadau cyllidebol presennol. Mae nifer o gamau gweithredu wedi'u cynnwys sydd eisoes ar waith; trwy Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, grantiau/cyllid allanol a gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud gan sefydliadau allanol sy'n cyfrannu at nodau'r strategaeth. Prif ffocws y cynllun gweithredu yw cyfrannu mewn ffordd bositif at Strategaeth Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a bodloni gofynion Safonau'r Gymraeg.

Felly, nod y Strategaeth yw:

- Cyflwyno camau yn y tymor byr i arafu'r gostyngiad yng nghanran nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol
- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhob agwedd ar fywyd
- Codi ymwybyddiaeth o'r iaith fel rhan o sectorau treftadaeth, diwylliant, twristiaeth a busnes Castell-nedd Port Talbot

- Gyrru a chefnogi addysg cyfrwng Cymraeg a chreu ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd, yn enwedig ysgolion cynradd, trwy Gynllun Strategol Addysg Gymraeg effeithiol

Rhennir y Cynllun Gweithredu yn ddwy ran.

Cyfeiria **Adran 1** at ymyriadau a chamau gweithredu a fyddai'n cael eu gweld fel cyfrifoldeb ar y Cyngor dan Safonau'r Gymraeg. Ceir gwaith wedi'i is-gontractio a thrydydd partion yn Rhan 1 hefyd. Er y ceir cyfeiriadau at fudiadau partner, byddai'r camau gweithredu hyn yn cael eu gweld fel rhai sy'n gyfrifoldeb ar y Cyngor yn bennaf.

Cyfeiria **Adran 2** at waith mudiadau partner sydd hefyd yn edrych ar gyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r adran hon yn ystyried gwaith rhai o aelodau Fforwm Strategol y Gymraeg sy'n cael ei gadeirio ar y cyd gan aelodau o Fenter Iaith Castell-nedd Port Talbot a Menter Iaith Abertawe.

Wrth weithredu'r Strategaeth, bydd y Cyngor, y Fforwm Strategol a phartneriaid unigol yn cydweithio i gyflawni ei hamcanion, i weithredu newidiadau ac i weithio tuag at y nod cyffredin.

Mae'r cyngor a Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot wedi gweithio'n agos gyda'i gilydd i sicrhau bod y nodau a'r camau gweithredu'n realistig. Yn ogystal, mae aelodau'r Fforwm Iaith wedi dangos eu cefnogaeth i'r strategaeth drwy gytuno i gyflwyno amrywiaeth o gamau gweithredu, gyda chefnogaeth y cyngor lle bynnag y bo'n bosib, i helpu i gyflwyno nodau'r strategaeth. Er y cydnabyddir nad oes gan y Cyngor unrhyw reolaeth dros y gweithgareddau yn Rhan 2 na gallu'r partneriaid a nodir yn Rhan 2 i gyflawni'r targedau, efallai y bydd y Cyngor mewn sefyllfa i weithio ar y cyd ac i gomisiynu aelodau'r Fforwm Iaith i gyflawni gweithgareddau ychwanegol er mwyn bodloni amcanion y Strategaeth fel y nodwyd yn Rhan 1 yn y Cynllun Gweithredu.

Er mai'r Cyngor sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros Strategaeth Hybu'r Gymraeg, yn unol â Safon 145 yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, mae pob mudiad partner yn rhannu'r cyfrifoldeb yn rhinwedd yr ymrwymïadau a geir yn y cynllun gweithredu.

Rhagwelir, erbyn 2023, y bydd y Cyngor wedi cyfrannu at gynnydd o 1%, o leiaf, yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol o fewn y cynllun ariannol cyfredol, a lefelau cyllid ac adnoddau presennol.

ADRAN 1 – Ymyriadau mewnol ac ymyriadau 3^{ydd} parti dan reolaeth CBS Castell-nedd Port Talbot

Blaenoriaeth Strategol 1. Plant a phobl ifanc					
Ymyriad	Nodau	Gweithgarwch Arfaethedig	Targed erbyn 2023	Adran o'r Cyngor	Partner
1.1 Cael effaith bositif ar ddarpariaeth y Blynyddoedd Cynnar	Darparu hyfforddiant iaith Gymraeg a gofal plant priodol ar gyfer ymarferwyr y blynyddoedd cynnar er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.	Gweithio gyda phrosiect 'Cam wrth Gam' sy'n darparu Diploma Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant	Sicrhau bod nifer priodol o weithwyr gofal plant o CNPT a'r ardal gyfagos yn derbyn hyfforddiant blynyddol ac yn ennill cymwysterau perthnasol.	Dechrau'n Deg	'Cam wrth Gam' Mudiad Meithrin Darparwyr Blynyddoedd Cynnar Cymraeg Byd Busnes
	Cynyddu nifer y plant sy'n mynychu darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg.	Gweithio gyda Mudiad Meithrin, Dechrau'n Deg a Menter Iaith CNPT i hybu manteision addysg cyn-ysgol a chyfrwng Cymraeg.	Cynyddu nifer y plant sy'n mynychu darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn unol â chynghor gan Reolwr Dechrau'n Deg.	Dechrau'n Deg	'Cam wrth Gam' Mudiad Meithrin Menter Iaith CNPT Gwasanaethau Gwybodaeth i'r Teulu
	Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn grwpiau chwarae a meithrinfeydd dydd sy'n rhai cyfrwng Saesneg yn bennaf.	Cynyddu'r Gymraeg mewn gweithgareddau chwarae i sefydlu patrymau rhifedd a llythrennedd sylfaenol yn y Gymraeg.	Adnabod o leiaf un grŵp chwarae/meithrinfa ddydd y flwyddyn sy'n gallu cyflwyno geiriau sylfaenol, patrymau brawddegau a	Dechrau'n Deg	'Cam wrth Gam' Mudiad Meithrin Darparwyr Blynyddoedd Cynnar Cymraeg Byd

Blaenoriaeth Strategol 1. Plant a phobl ifanc					
Ymyriad	Nodau	Gweithgarwch Arfaethedig	Targed erbyn 2023	Adran o'r Cyngor	Partner
			chaneuon yn Gymraeg, a datblygu cynllun gwobrwyo gyda'r darparwyr.		Busnes
1.2 Addysg – sector cynradd	Lansio ymgyrch farchnata sirol i hybu manteision addysg cyfrwng Cymraeg a buddion dwyieithrwydd	Dosbarthu'r llyfryn 'Being Bilingual' a datblygu deunydd ac offerynnau marchnata gyda'r nod o gynyddu nifer yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg mewn partneriaeth ag ERW a Menter Iaith CNPT.	Lansio ymgyrch farchnata yn gynnar yn 2019 a chynllunio cyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau cyhoeddusrwydd parhaus flwyddyn ar flwyddyn	Strategaeth Gorfforaethol Addysg	Menter Iaith CNPT RhAG Fforwm Strategol ERW Llywodraethwyr Ysgolion
